*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Medi 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol 01745 535 286** |
| Pwnc | **Adroddiad Gwella Blynyddol 2018/19 gan Swyddfa Archwilio Cymru** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno (Atodiad 1) yr Adroddiad Gwella Blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019 gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Ar sail y gwaith a gafodd ei wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod 2018/19, roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn dod i'r casgliad fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn bodloni'r gofynion statudol sydd arno o ran gwelliant parhaus, a'i fod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2019/20.

3 Ni roddwyd unrhyw argymhellion ffurfiol i'r Awdurdod, ond gwnaethpwyd chwe chynnig ynglŷn â sut y gallai wella'r ffordd y mae'n cydymffurfio â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy pan mae'n cymryd camau tuag at gyflawni ei ail amcan llesiant.

4 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd yn atgynhyrchu cyfres o argymhellion a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn adroddiad cenedlaethol wedi'i anelu'n bennaf at gynghorau sir ond a oedd yn cynnwys dau argymhelliad wedi'u hanelu at bartneriaid gwasanaethau cyhoeddus y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â chymunedau gwledig.

**ARGYMHELLION**

5 Gofynnir i'r aelodau nodi cynnwys yr Adroddiad Gwella Blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**CEFNDIR**

6 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn mynnu bod yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal asesiad gwella blynyddol sy'n edrych tua'r dyfodol, a'i fod yn cyhoeddi adroddiad gwella blynyddol ar gyfer pob awdurdod gwella Cymreig.

7 Mae dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella Cymreig i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau.

**GWYBODAETH**

8 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol eleni yn dwyn ynghyd ganfyddiadau cryno gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu Swyddfa Archwilio Cymru yn 2018/19, a gafodd eu rhoi i'r Awdurdod rhwng Mai 2018 a Mehefin 2019. Mae hefyd yn cynnwys argymhellion a wnaed mewn adroddiad cenedlaethol ym mis Tachwedd 2018 ar yr heriau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau llywodraeth leol i gymunedau gwledig. Mewn trefn gronolegol, y rhain oedd:

i. **Mai 2018** – adroddiad yn seiliedig ar archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o gynllun gwella blynyddol yr Awdurdod ar gyfer 2018/19, a ddaeth i'r casgliad fod yr Awdurdod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cynllunio ar gyfer gwella. Nid oedd unrhyw gynigion ar gyfer gwella.

ii. **Tachwedd 2018** – adroddiad cenedlaethol a oedd yn archwilio'r newid yn wyneb y Gymru wledig ac yn archwilio'r heriau demograffig o ran darparu gwasanaethau cynghorau i gymunedau gwasgaredig. Mae'r adroddiad yn argymell y gallai partneriaid gwasanaethau cyhoeddus y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ymateb yn fwy effeithiol i'r heriau sy'n wynebu cymunedau gwledig drwy:

    a) asesu cryfderau a gwendidau eu cymunedau gwledig gwahanol gan ddefnyddio Offeryn Prawfesur Gwledig Llywodraeth Cymru i adnabod y camau lleol a strategol y mae arnynt angen eu cymryd i gefnogi cynaliadwyedd cymunedol a chytuno arnynt; a

    b) sicrhau bod y Cynllun Llesiant Lleol yn cyflwyno gwledigaeth sy'n fwy gobeithiol ac uchelgeisiol ar gyfer 'lle' gyda chydflaenoriaethau a gydgynhyrchwyd gan roi sylw i heriau y cytunwyd arnynt.

iii. **Rhagfyr 2018** – adroddiad yn seiliedig ar archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad yn ystod 2017/18. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod yr Awdurdod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau o ran adrodd ynghylch gwella, ac nid oedd yn gwneud unrhyw gynigion ar gyfer gwella.

iv. **Mawrth 2019** – y llythyr archwilio blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2017/18, a oedd yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cydymffurfio â’i gyfrifoldebau mewn perthynas ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau. Nid oedd unrhyw gynigion ar gyfer gwella.

v. **Mehefin 2019** – adroddiad yn dilyn yr archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae’r adroddiad yn nodi cyfleoedd ar gyfer gwella yn y dyfodol, ond nid oedd yn gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol.

9 Bydd camau gweithredu dilynol, yn seiliedig ar y cynigion ar gyfer gwella, yn cael eu hymgorffori yng nghynlluniau’r Gwasanaeth, i’w gweithredu ac i adrodd yn eu cylch yn y dyfodol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae’r Adroddiad Gwella Blynyddol yn cynnwys casgliadau a chynigion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwella, yn seiliedig ar ei archwiliad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Fel rhan o’i blaenraglen waith, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn olrhain y cynnydd mewn perthynas â’r cynigion. |
| Cyllideb | Ni chanfuwyd dim |
| Cyfreithiol | Mae’r Adroddiad Gwella Blynyddol yn adlewyrchu dyletswydd yr Awdurdod dan Fesur Llywodraeth Leol 2009 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau. |
| Staffio | Ni chanfuwyd dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd dim |
| Risgiau | Mae’r adroddiad yn cadarnhau casgliad yr Archwilydd Cyffredinol fod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2019/20. Felly, ystyrir mai bach yw’r risg o beidio â chydymffurfio. |